# CYNGOR CYMUNED LLANBADARN FAWR

**COFNODION** cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd dros we-gamera oherwydd y Coronafeirws ar **DDYDD LLUN, 8 CHWEFROR, 2021.**

**6.30yh. i 7.15yh.**

**Cynghorwyr a gymerodd ran:**

**Linda Keeler (Cadeirydd), Ben Davies, Gareth Davies, Martin Davies, David Greaney, Mark Hemingway, Siôn Jobbins, Tom Kendall, Andrew Loat, Dave Pain, Dafydd Pritchard, Matthew Woolfall-Jones.**

**Mrs Rhian Rowlands – Clerc**

**1) MATERION PERSONOL AC YMDDIHEURIADAU:**

**Cydymdeimlad**: - Estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mrs Harriet Pendlebury. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu at Mr R Pendlebury a Mrs B Morris.

**2. DATGELU BUDDIANT**:

I'w nodi yn y cofnodion.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD:**

Dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**4. UNRHYW GWYNION AT SYLW'R HEDDLU:**

Dim.

**5. CADARNHAU COFNODION Y CANLYNOL:**

i. P**enderfynwyd** bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2021, yn gofnod gwir, os caiff y dyddiad ei newid o'r 12fed i'r 11eg o Ionawr, a nodwyd bod y Cyng. A Loat wedi ei enwi ddwywaith, Enw'r Cyng. T Kendall i'w ychwanegu.

ii. P**enderfynwyd** bod cofnodion y CCB a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2021 yn gofnod gwir.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION UCHOD.**

**Cofnod 6i – Woodland Trust –** Bydd y Cyng. D Pain yn anfon llun i bawb i ddangos ble fyddai'r coed yn cael eu plannu.

**7. MATERION CYNLLUNIO:**

A201067 – y tir tu ôl i Hafan y Waun –77 annedd.

Er bod y cais hwn yn Ward y Faenor, mae'n cefnu ar dai yn ardal Llanbadarn Fawr.

P**enderfynwyd** gwrthwynebu'r cais ar sail draeniad, traffig a cholli gofod gwyrdd.

**8. GOHEBIAETH:**

i. Eisteddfod Genedlaethol - Datganiad i'r Wasg bod Eisteddfod Ceredigion 2021 yn cael ei gohirio am flwyddyn tan Awst 2022 oherwydd y pandemig COVID.

ii. Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol/SLCC - Adnewyddu Aelodaeth sy'n ddyledus ar gost o £144.00 y flwyddyn . **Penderfynwyd** talu.

iii. Un Llais Cymru –

a) Rhybudd gan yr Heddlu am Dwyll Gwasanaethau Negeswyr – wedi ei ddosbarthu eisoes i aelodau;
b) Cadeirydd Newydd i'r swydd ar Drais yn erbyn Menywod (OVW) – Mr Mike Theodoulou
c) Swyddog Datblygu newydd ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru – Mr Alun Harries.
d) Llefydd gwag ar gyfer hyfforddiant rhad ac am ddim - copi wedi'i anfon at y Cynghorwyr.

e) Cofrestrfa Tir EM - Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru - y Clerc wedi ymateb i'r arolwg.
f) Diweddariad ar y Coronafeirws wedi'i ddosbarthu eisoes i'r Cynghorwyr.
g) Ymgyrch 'Cadwch Gymru'n Ddiogel' - copi wedi'i anfon at y Cynghorwyr.
h) Pwyllgor Ardal Ceredigion 17 Mawrth, 2021.
i) Ymgynghoriad - copi drafft o gyfarwyddiadau newydd ar y Cod Ymddygiad – ar wefan Un Llais Cymru, ac unrhyw sylwadau i'w cyflwyno erbyn 28 Chwefror 2021.

iv. Y Cyng. G Davies – Goleuo'r stryd ym Mrynrheidol - Copi o'r e-bost i Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn am fwy o olau stryd ger 63 Brynrheidol.
v. Mr G Davies - Cyfrifiad 2021 - E-bost o ddiolch oddi wrth Mr Davies am gael caniatâd i fynychu ein cyfarfod mis diwethaf ac yn amgáu poster i'r clerc i'w ddosbarthu i'r aelodau
vi. Archwiliad Cymru - Arolwg wedi'i anfon ymlaen at y Cynghorwyr ynglŷn â: Eich Tref, Eich Dyfodol
vii. Y Cyng. M Davies - wedi anfon ymlaen y cais cynllunio A201067 am y datblygiad ger Hafan y Waun oddi wrth Aberystwyth Gwyrddach.
viii. Cyngor Sir Ceredigion - ymgynghoriad ar y rhybudd am y gwaith coed - Arch Noa, Llanbadarn Fawr. P**enderfynwyd** y byddai'r clerc yn anfon y cais ymlaen at yr aelodau.

**9. <u>ARIANNOL</u>**

**a) Cyfrifon wedi'u talu / i'w talu.**

| Rhif y Siec | Taledig i | Swm £ |
|---|---|---|
| 101429 | Elenid N Hughes | 96.30 |
| 101430 | Tegwen Jones | 996.36 |
| 101431 | Cyllid a Thollau EM | 67.92 |
| 101432 | L & G Forestry (Coeden Nadolig ) | 144.00 |
| 101433 | SLCC - tâl aelodaeth | 144.00 |
| 101434 | Shelley Signs (Hysbysfwrdd) | 1692.00 |

**b) Sefyllfa Gyllidebol y Cyngor fel ag yr oedd ar 22 Rhagfyr, 2020.**
Cyflwynodd y Cyng. David Greaney adroddiad ar y sefyllfa hyd at 22 Rhagfyr, 2020.

**c) Llywodraeth Cymru - Darparu a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2020/2021 –** paratoi ac ardystio'r cyfrifon drafft erbyn 31 Awst, 2021.
Diolchwyd i'r Clerc a'r Cyng. David Greaney am eu gwaith.

**10) <u>CWLFER</u>:**

Adroddwyd bod:

i. Llifogydd wedi digwydd unwaith eto a bod y cwlfer wedi blocio'n llwyr;
ii. Y Cyng. Matthew Woolfall-Jones wedi ysgrifennu at Mr Gareth Lewis sydd yn ei dro yn trafod â Dŵr Cymru.
iii. Y Cyng. Matthew Woofall-Jones hefyd wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion a Dŵr Cymru ond heb gael ymateb
iv. Y Cyng. Woolfall-Jones yn mynd i ysgrifennu yn awr at Gyfoeth Naturiol Cymru

**11) <u>LLYWODRAETHWR YR YSGOL GYMRAEG</u>**

Y Clerc i ysgrifennu at yr Ysgol Gymraeg yn gofyn iddynt benodi Llywodraethwr i gynrychioli Llanbadarn Fawr ar fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol.